

**Cyfarfod agored yw hwn:  
mae croeso i aelodau'r cyhoedd arsylwi yn yr oriel gyhoeddus**

---

## **Panel Perfformiad Craffu Ysgolion**

Crynodeb: Dyma becyn agenda ar gyfer Panel Perfformiad Craffu Ysgolion a gynhelir ar 06.02.2017. Mae'r brif eitem sy'n cael ei thrafod yn ymwneud â pherfformiad ysgolion yn Abertawe.

**Dyddiad:** 06.02.2017

**Amser:** 4.00pm

**Lleoliad:** Ystafell Bwyllgor 6, Neuadd Y Ddinas, Abertawe

**Aelodau'r Panel:**

Fiona Gordon

Mike Day

Beverley Hopkins

Hazel Morris

Sue Jones

Cheryl Philpott

Paul Meara

Cyril Anderson

Dave Anderson-Thomas (Rhiant-lywodraethwyr

Cyfetholedig)

**Copi o'r Agendâu at:**

Helen Morgan-Rees – Pennaeth Gwella Ysgolion yr Hwb

Nick Williams - Pennaeth Gwasanaethau Dysgwyr

Lindsay Harvey – Prif Swyddog Addysg

---

## **AGENDA**

<b>Rhif</b>	<b>Eitem</b>
1.	Cynigion Cyllidebol Abertawe Gynaliadwy – Yn Addas I'r Dyfodol 2017/18 – 2019/20

\*\*\*Sylwer y dylai aelodau ddatgan buddiannau personol a rhagfarnol a chwipio pleidiau yn y modd arferol

Cyswllt: Michelle Roberts, Swyddog Craffu

Ffôn: 01792 637256

E-bost: [michelle.roberts@abertawe.gov.uk](mailto:michelle.roberts@abertawe.gov.uk)

## **Cysylltu gwaith y Panel Perfformiad Craffu Ysgolion â Blaenoriaethau Corfforaethol y Cyngor**

Mae'r eitemau ar yr agenda heddiw'n dod dan y blaenoriaethau corfforaethol canlynol ar gyfer Abertawe, yn unol â'r manylion yn y Cynllun Corfforaethol Cyflwyno ar gyfer Abertawe 2015-17.

### **Blaenoriaeth Un: Diogelu Pobl Ddiamddiffyn**

Mae Cyngor Abertawe'n ymrwymedig i sicrhau bod ei ddinasyddion yn rhydd rhag niwed ac ecsbloetio, gan gynnwys cam-drin yn y cartref, ecsbloetio plant, masnachu pobl a chaethwasiaeth fodern. Rydym am i bobl allu byw mor annibynnol ag y bo modd, ac yn eu cartrefi eu hunain. Rydym hefyd am i blant aros gyda'u teuluoedd neu gael eu cefnogi mewn lleoliadau teuluol, lle mae'n ddiogel iddynt wneud hynny.

### **Blaenoriaeth Dau: Gwella Cyrhaeddiad Disgyblion**

Rydym am i bob plentyn a pherson ifanc yn Abertawe ddysgu'r sgiliau ac ennill y cymwysterau angenrheidiol i lwyddo mewn bywyd. Ar hyn o bryd, mae gormod o blant a phobl ifanc yn colli'r ysgol yn rheolaidd ac, o ganlyniad, nid ydynt yn dysgu'r sgiliau ac yn ennill y cymwysterau y mae eu hangen arnynt i fynd ymlaen i addysg bellach, cyflogaeth neu hyfforddiant.

Mae angen i ni sicrhau bod yr holl blant a phobl ifanc yn mynd i'r ysgol yn rheolaidd fel eu bod yn cael cyfle gwell i wella'u sgiliau a'u cymwysterau. Mae deilliannau addysgol yn Abertawe wedi dangos gwelliannau da yn y blynyddoedd diwethaf. Rydym yn parhau i ganolbwyntio ar wella deilliannau i bob plentyn a pherson ifanc. Bydd codi dyheadau a gwaith effeithiol yn sicrhau na fydd tlodi ac anfantais yn atal gwelliant a chyfleoedd.

### **Blaenoriaeth Tri: Trechu Tlodi**

Ein gweledigaeth yw y bydd dinasyddion Abertawe'n llawn dyheadau ac y bydd ganddynt yr hyder a'r adnoddau i wireddu eu dyheadau. Rydym am i bawb, lle bynnag y mae'n byw, fyw mewn lle ffyniannus a chefnogol, lle mae'n teimlo'n falch o berthyn i'r gymuned. Rydym am i bobl gael dyheadau ar gyfer eu cymunedau a'u teuluoedd sy'n rhoi her a boddhad iddynt ac sy'n eu hysbrydoli. Rydym am i gymunedau gael uchelgeisiau, lle mae pobl ifanc yn ymdrechu am ddyfodol gwell a chael yr help a'r gefnogaeth y mae eu hangen arnynt i'w wireddu. Rydym am ddarparu modelau rôl cryf i blant ac oedolion sy'n eu helpu i ddysgu a chael profiad o opsiynau newydd nad oeddent erioed wedi'u dychmygu o'r blaen.